# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together


18/06/2020

Annwyl Rieni / Ofalwr,

Fel y gwyddoch erbyn hyn, bydd yr ysgol yn ailagor ar 29ain Mehefin. Diolch i bawb wnaeth ymateb i i'r holiadur. Mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi bod o gymorth mawr i'n cynllunio. Oherwydd cyfyngiadau **capasiti** a chanllawiau sirol a chenedlaethol, y disgwyliad yw i flaenoriaethu **gofal ar gyfer plant gweithwyr allweddol** a **phlant sy'n agored i niwed**. Rydym, ar hyn o bryd, wedi grwpio disgyblion yn ôl ymateb i'r gofynion hyn ac mewn ymateb i'r holiadur. Os **na wnaethoch** chi ymateb neu ddweud **efallai** yr hoffech i'ch plentyn fod yn bresennol, cysylltwch â'r ysgol erbyn **dydd Mawrth y 24ain o Fehefin**.

Gweler yr amserlen isod. **Bydd manylion pellach yn dilyn gyda chynlluniau ar gyfer yr wythnos olaf.**

## Fe'ch hysbysir o grŵp eich plentyn yn fuan.

| | Llun | Mawrth | Mercher | Iau | Gwener |
|---|---|---|---|---|---|
| Wythnos yn dechrau 29.6.2020 | Grŵp A | Grŵp B | Dysgu o hirbell | Group C | Group Ch |
| Wythnos yn dechrau 6.7.2020 | Grŵp A | Group B | Dysgu o hirbell | Group C | Group Ch |
| Wythnos yn dechrau 13.7.2020 | Galw Mewn / Pontio | Galw Mewn / Pontio | Dysgu o hirbell | Galw Mewn / Pontio | ***Blwyddyn 6 yn unig*** |
| Wythnos yn dechrau 20.7.2020 | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |

**Cyrraedd a gadael yr ysgol**

Dyma'r amserlen ar gyfer gollwng a chasglu eich plant. Bydd amserlen hwnt gychwyn yn sicrhau nad yw plant yn cymysgu nac yn dod ar draws gormod o unigolion eraill. Ni fydd unrhyw grŵp o blant yn yr ysgol am ddiwrnodau llawn a bydd amserau penodol ar gyfer casglu a gollwng eich plentyn.

Bydd eich plant yn dod mewn trwy'r fynedfa ar Rodfa Brynmill. **Ni chaniateir rhieni ar yr buarth.** Gofynnwn i rieni giwio y tu allan i'r giât gan gadw at y rheol pellter cymdeithasol o 2m ac aros yn amyneddgar i drosglwyddo eich plentyn i'r athro dosbarth. Bydd eich plentyn yn cerdded i'r buarth ac yn sefyll mewn ardal ddynodedig.

Wrth adael, bydd eich plentyn yn sefyll yn yr ardal ddynodedig eto ar y buarth, a chyn gynted ag y bydd yr athro'n gweld rhiant, bydd y plentyn yn cael ei alw i ddod allan atoch chi. Yn sgil hyn, bydd prydolondeb wrth


**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

ollwch a chodi eich plentyn yn hollbwysig a gofynnwn yn garedig am eich cydweithrediad gyda hyn er mwyn diogelwch pawb.

| | Blwyddyn | Amser Gollwng | Amser Casglu |
|---|---|---|---|
| | 6 | 8.45 | 12.40 |
| | 5 | 8.55 | 12.30 |
| | 4 | 9.05 | 12.15 |
| | 3 | 9.15 | 12.00 |
| | 2 | 9.30 | 11.45 |
| | 1 | 9.45 | 11.30 |

Felly, bydd angen i chi gofio ym mha grŵp y mae eich plentyn ac amser gollwng a chasglu'ch plentyn.

e.e.
*Os yw John Smith yng Ngrŵp A ac ym mlwyddyn 6, byddai John yn dod i'r ysgol ar ddydd Llun rhwng 8.45 a 12.40*
*Os yw Jane Smith yng Ngrŵp Ch ac ym Mlwyddyn 1, byddai'n dod i'r ysgol ar ddydd Gwener rhwng 9.45 a 11.30.*

Penderfynwyd greu grwpiau dosbarth (yn hytrach na grwpiau blwyddyn) oherwydd bydd hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael amser gyda'u **hathro dosbarth**.

**Trafnidiaeth**
Ar hyn o bryd, y cyngor i'r ysgol yw i annog disgyblion a rhieni i gerdded, beicio neu ddod yn y car i'r ysgol. Cynghorir yn erbyn rhieni a disgyblion yn rhannu ceir gyda theuloedd eraill. Os ydy trafnidiaeth yn broblem i chi a'ch teulu, a'ch bod am i'ch plentyn fynychu'r ysgol, **cysylltwch â'r ysgol cyn gynted â phosibl**.

**Clwb Brecwast a Clwb Gofal**
Ni fydd clwb brecwast na chlwb gofal ar ôl ysgol ar hyn o bryd.

**Meithrin a Derbyn**
Gwnaethpwyd penderfyniad sir gyfan gan Gyngor Abertawe **na fydd disgyblion Meithrin a Derbyn** yn dychwelyd yn ystod tymor yr Haf. Fodd bynnag, bydd cefnogaeth a darpariaeth ar-lein yn parhau ar gyfer y disgyblion hyn gan yr athro dosbarth. Cyn tymor yr Hydref, bydd athro dosbarth newydd eich plentyn yn cysylltu gyda chi i drefnu pontio ac i drefnu amser i'ch plentyn adeiladu perthynas newydd gyda'r ysgol ac aelodau staff.

**Pethau i'w hystyried:**

- ✓ Cysurwch eich plentyn. Beth bynnag yw eich penderfyniad fel teulu (i ddychwelyd i'r ysgol neu i beidio â dychwelyd i'r ysgol), byddwn yn eich cefnogi.
- ✓ Atgoffwch eich plentyn na fydd yr ysgol yn ei ffurf 'arferol'. Bydd plant yn cael ei roi mewn grŵp bach yn yr ysgol a ni fydd modd cymysgu gyda grwpiau eraill. Bydd angen iddynt gadw at reolau **pellhau cymdeithasol a hylendid cymdeithasol.**
- ✓ **Ymgysylltwch â gweithgareddau dysgu o hirbell** (ysgol rithwir). Dyma fydd y ffordd newydd o ddysgu ar gyfer tymor yr Haf ac yn fwy na thebyg yn nhymor yr Hydref hefyd. PWYSIG! **Llofnodwch a dychwelwch y cytundeb ysgol /gartref (trwy e-bost) i roi caniatâd i'ch plentyn gymryd rhan yn y cyfarfodydd / gwersi ffrydio byw.** Oni bai ein bod yn derbyn y cytundebau hyn, ni fydd eich plentyn yn gallu cymryd rhan.
- ✓ Danfonwch eich plentyn i'r ysgol yn gwisgo dillad cyffyrddus gan y bydd gwersi y tu allan/ymarfer corff yn rhan o'r dydd - am y tro, ni fydd unrhyw ofyniad i wisgo gwisg ysgol. Fe'ch cynghorir i olchi'r dillad ar yr un diwrnod pan fydd eich plant yn dychwelyd o'r ysgol.
- ✓ Gadewch i'ch plentyn ddod â byrbryd bach iach (dim cnau) mewn i fwyta canol y bore, a photel ddŵr. Sicrhewch fod y byrbryd yn cael ei roi mewn bag bach y gellir ei waredu'n hawdd.
- ✓ Wrth i chi adael eich plentyn yn y bore, cadarnhewch gyda'ch athro dosbarth nad oes gane eich plenty **symptomau** covid 19.
- ✓ Rhowch alwad i ni. Os oes gennych unrhyw bryderon, ffoniwch yr ysgol am apwyntiad dros y ffôn gyda'ch athro dosbarth. Os yn bosibl, peidiwch ag anfon e-byst at eich athro dosbarth oni bai ei fod yn hollol angenrheidiol.
- ✓ Byddwch yn garedig. Byddwch yn amyneddgar. Mae eich plant, y staff, ychi fel rhieni i gyd yn delio â 'sefyllfaoedd' na fu erioed yn 'sefyllfaoedd' o'r blaen. Bydd cydweithio gyda'n gilydd yn sicrhau y bydd y ffordd anarferol a gwahanol hon o ddysgu, cymaint â phosibl, yn amser hapus sy'n **canolbwyntio ar les pawb**.

*Mewn undod mae nerth*

**Peidiwch ag:**

- anfon eich plentyn gyda gormod o eitemau personol o'r cartref**. Ni fydd y loceri** ar gael. Dim bagiau ysgol. Dim ffonau.
- ymgynnull o amgylch y fynedfa ar Brynmill Avenue. Caniatewch amser i ddod o hyd i le parcio (cofiwch geisio peidio â defnyddio Heol St Albans) a sefyll yn y mannau priodol nes bod yr athro / athrawes yn galw'ch plentyn ymlaen. Defnyddiwch yr un egwyddor wrth gasglu'ch plentyn a chofiwch mai dim ond **un rhiant sydd yn gollwng a chasglu**.
- anfon losin neu ddiodydd melys i'r ysgol.

- anfon eich plentyn i'r ysgol os oes ganddo unrhyw un o'r symptomau canlynol:
  Peswch parhaus
  Tymheredd uchel
  Diffyg gallu i flasu
  Colli'r gallu i arogli

**Gofal Plant Brys – Gweithwyr allweddol**
Rhoddir blaenoriaeth i gefnogi plant gweithwyr allweddol a disgyblion agored i niwed yn ystod tymor yr haf. Mae Cyngor Abertawe yn y broses o edrych i mewn i gefnogaeth bellach yn ystod gwyliau'r haf.


- O'r 29ain o Fehefin **bydd amseroedd yr ECS rhwng 8.30am a 3.30pm.**
- Bydd y plant sy'n mynychu'r Hwb gofal plant yn cael y cyfle i fynd i'r dosbarth am gyfnodau gyda eu grŵp os ydych wedi cadarnhau lle, ond **ni fyddant** yn cael dychwelyd i'r Hwb gofal ar yr un dydd.
- Bydd angen parahau i **fwcio lle wythnos** ymlaen llaw.
- O'r 29ain bydd disgwyl i blant y clwb gofal brys i ddod a **cinio eu hunan i'r Ysgol.**

Yn ystod yr wythnosau hyn o gynllunio, rydym yn gwneud cymaint ag y gallwn i gefnogi dychwelyd yn ddiogel i'r ysgol ac ni allaf ond canmol yr ymdrech, y gofal a'r sylw a'r gwaith caled y mae staff yr ysgol wedi'u gwneud yn ystod y cyfnod digynsail hwn. Mae'r firws covid 19 yn dal i fod yn bresennol yn y gymuned ac felly **ni allwn warantu** na fydd y firws yn bresennol yn yr ysgol, dim ond y bydd **pob ymdrech** yn cael ei gwneud i sicrhau na fydd y firws yn lledaenu ac os yn bosib ei atal. Bydd eich ymdrech a'ch cydweithrediad yn chwarae rhan hanfodol yn y broses hon.

I gloi, hoffwn gymryd yr amser i ddiolch i rieni a gofalwyr am eu cefnogaeth barhaus, eu cyfathrebu positif a'u negeseon o ddiolch. Mae'r staff wir wedi gwerthfawrogi'r sylwadau a'r adborth meddylgar rydych chi wedi'u darparu. Mae'r cyfnod hwn o newid parhaus yn her i bawb, ac mae'n hyfryd teimlo bod naws gymunedol Ysgol Bryn y Môr yn parhau i fod yn un o gryfderau yr ysgol.

Gobeithio bod popeth yn iawn gyda chi a'ch teuluoedd ac edrychaf ymlaen at eich croesawu chi i gyd yn ôl ar ryw adeg.

*Yn gywir*



Mrs E Wakeham

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**